# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG**

Dyddiad ac Amser

**5.30 y.h., DYDD MERCHER, 10FED HYDREF, 2018**

Lleoliad

**Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd. LL49 9LU**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DISTRIBUTED 03/10/18)

## AELODAETH:

### Cyngor Gwynedd:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd E. Selwyn Griffiths | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Alwyn Gruffydd | Aelod Lleol |
| Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys | Aelod Lleol |

### Aelodau Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Jason Humphreys | Cynrychioli Cyngor Tref Porthmadog |
| David Mclean | Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir |
| David Eastwood | Cynrychioli Buddiannau Harbwr |
| Dr John Jones-Morris | Cynrychioli Buddiannau Hamdden |
| Ian Roberts | Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol |
| Robert Owen | Cynrychioli Buddiannau Masnachol |
| Peter Lunt Williams | Cynrychioli Sefydiad y Bad Achub Cricieth |

### Sylwedyddion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |
| David Williams | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi |
| Cynghorydd Rob Triggs | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw |
| Cynghorydd Peter Read | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |

# RHAGLEN

## 1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2018/19.

## 2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd am 2018/19.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 6. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2018, fel rhai cywir.

## 7. DIOGELWCH HARBWR

I ystyried unrhyw fater diogelwch harbwr.

## 8. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR 8 - 27

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

## 9. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 6 Mawrth 2019.

# PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 7/3/18

**YN BRESENNOL:**

Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cynghorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Jason Humphreys (Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog), Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

**Sylwedyddion:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi) a Rob Triggs (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU:** David Eastwood (Cynrychiolydd Buddiannau Harbwr).

**<u>Cyhoeddiadau'r Cadeirydd</u>**

Croesawyd yr Aelod Cabinet a'r sylwedydd o Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw i'r cyfarfod.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Ioan Thomas fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen – Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr, oherwydd ei fod yn Gadeirydd Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon.

'Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Hydref, 2017, fel rhai cywir.

## 3. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig bod yr harbyrau wedi bod yn ffodus, gan ddim ond ychydig o ddifrod a fu yn ystod y tywydd garw diweddar. Nododd ei ddiolchiadau i staff yr harbwr am eu gwaith yn ystod y cyfnod. Cyfeiriodd at y cyfnod tywydd garw blaenorol ar yr 16 a 17 o Hydref, 2017. Adroddodd bod staff yr harbwr wedi cydweithio efo swyddogion Sefydliad y Bad Achub ac Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ar 17 Hydref, lle achubwyd bywyd person.

Nododd cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog ei werthfawrogiad o waith staff yr harbwr a gwasanaethau brys yn ystod y tywydd garw.

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod adroddiad archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ar eu arolygiad trylwyr o drefniadau a systemau diogelwch presennol harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd er sicrhau cydymffurfiaeth a'r Cod Diogelwch Porthladdoedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen. Roedd yr archwiliwyr yn nodi bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion yn gyffredinol ond bod angen addasu rhai elfennau yn gysylltiedig â chofnodi dyletswyddau a nodi pwy oedd y Daliwr Dyletswydd a'r Person Dynodedig.
- Byddai'r archwilwyr yn cynnal archwiliad pellach yn mis Hydref 2018 ac fe fwriedir i'r archwilwyr fynychu cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol gan wahodd cynrychiolwyr Pwyllgorau Ymgynghorol Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli i'r cyfarfod.
- Pwysigrwydd y Cod Diogelwch a'r dyletswydd ar aelodau i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod ac i dderbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr.
- Bod 3 Rhybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Porthmadog ar hyn o bryd. Byddai'r cymhorthyddion mordwyo yn cael eu hail leoli unwaith byddai gwaith ar gwch Y Dwyfor wedi ei gwblhau.
- Bod sianel fordwyo Harbwr Porthmadog wedi newid yn sylweddol dros fisoedd y gaeaf. Roedd y Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel er ceisio sicrhau fod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliad fwyaf addas. Oherwydd y newid cyson yn y sianel roedd sicrhau fod y cymhorthion yn eu safle cywir yn heriol dros ben.
- Yn dilyn archwiliad o holl angorfeydd yr harbwr gan gwmni Deifio, adnabuwyd bod angen adnewyddu 35 angorfa. Derbyniwyd amcan brisiau am gadwyni a siacyls a'r amcan bris mwyaf cystadleuol oedd £5,100. Rhagwelir byddai gwaith gosod yr angorfeydd newydd oddeutu £3,000. Rhannwyd cynllun yn dangos lleoliadau angorfeydd.
- Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) i ben yn swyddogol ar 30 Medi 2017. Er sicrhau cymorth gyda gwaith yr harbwr dros fisoedd y gaeaf cafodd y cytundeb ei ymestyn hyd at y 31 Rhagfyr 2017 pan ddaeth y cytundeb i ben. Derbyniwyd cais gan Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon ar ddechrau mis Ionawr 2018, yn ceisio hawl i drafod cytundeb gwaith dros dro i'r cymhorthydd gyda'r Ymddiriedolaeth Harbwr. Roedd y Swyddog bellach yn gyflogedig gan yr Ymddiriedolaeth Harbwr. Dymunwyd yn dda i'r swyddog.
- Rhagwelir bydd swyddi tymhorol yn dychwelyd ar sail llawn amser yn harbyrau Porthmadog, Abermaw ac Aberdyfi ar 1 Ebrill 2018 ac yn parhau tan 30 Medi 2018.
- Bod y Gwasanaeth ar y cyd gyda Sefydliad y Bad Achub wedi cwblhau adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch o amgylch ardal yr Harbwr ger traeth Morfa Bychan. Diolchodd i Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub) am ei gyfraniad gwerthfawr.
- Mewn ymateb i'r archwiliad ac mewn ymgynghoriad gyda Mudiad y Bad Achub roedd y Gwasanaeth yn bwriadu archebu arwyddion newydd a fyddai'n cael eu gosod ar sawl safle o amgylch ardal yr harbwr a oedd yn ffinio efo Traeth Y Graig Ddu. Fe fyddai'r prif arwyddion yn cael eu gosod ar y Brif Fynedfa a mynedfa Ffordd Gwydryn gydag arwyddion llai yn cael eu gosod ger y Graig Ddu (llwybr arfordir) mynedfa 'Greenacres' ac ardal Cwt Powdr.
- Byddai'r arwyddion yn cael eu danfon i'r harbwr erbyn canol mis Mehefin 2018 a gobeithir y byddai'r prif arwyddion diogelwch ar eu safle priodol cyn cyfnod prif wyliau ysgolion. Mawr obeithir bydd yn bosibl ariannu'r cynllun drwy gronfa TAIS, sef cronfa Twristiaeth Llywodraeth Cymru.
- Ymddiheurwyd oherwydd problemau technegol nid oedd yn bosib rhannu manylion cyllideb yr harbwr. Byddai'n anfon y manylion at yr aelodau. Rhoddodd fraslun o'r sefyllfa ariannol.
- Er bod graddfa chwyddiant ar gyfer harbwr Porthmadog yn 2018/19 wedi cynyddu i 2.19% ers cyflwyno taenlen ffioedd 2018/19 i'r cyfarfod blaenorol, argymhellir i'r

Aelod Cabinet bod y ffioedd a thaliadau yn parhau i gynyddu 2% ar gyfartaledd yn y flwyddyn ariannol 2018/19 oherwydd bod y gwasanaeth eisoes wedi cyfathrebu gyda chwsmeriaid yr harbwr.

Holodd aelod os mai'r Aelod Cabinet fyddai'r Deilydd Dyletswydd o dan y Cod Diogelwch. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai'r Cabinet yn ei gyfanrwydd fyddai efo'r cyfrifoldeb. Cadarnhaodd Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod trafodaethau yn parhau efo'r Gwasanaeth Cyfreithiol a bod angen cadarnhau'r trefniadau.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed y sefyllfa bresennol o ran y Cod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd angen i'r aelodau bryderu a'i fod ef yn delio efo materion o ddydd i ddydd a gyda chyfrifoldeb am staff ac adnoddau. Pwysleisiodd bod adroddiad yr archwilwyr yn galonogol ac mai materion trefniadaethol oedd angen eu cadarnhau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod os byddai'r cymhorthyddion mordwyo yn ôl ar eu safle erbyn gwyliau'r Pasg, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig y gobeithir y byddent wedi eu hail leoli cyn y Pasg ond yn sicr byddent wedi eu hail leoli erbyn diwedd mis Ebrill.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig oherwydd natur traeth Y Graig Ddu byddai rhai o'r arwyddion diogelwch yn cael eu tynnu yn ystod misoedd y gaeaf er lleihau difrod gan y tywydd garw.

Nododd aelod ei werthfawrogiad o waith yr Harbwr Feistr, staff a'r Heddlu yn ymateb i achos diweddar o unigolion yn rasio ar draeth Morfa Bychan. Ychwanegodd bod unigolion yn gyndyn o ddarllen arwyddion a ddim yn gwrando ar bobl leol pan roddir cyngor iddynt o ran parcio ar y traeth. Nododd ei fod yn croesawu'r arwyddion diogelwch ychwanegol.

Nododd aelod ei ddiolch i Gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub am ei ddyfalbarhad o ran yr arwyddion diogelwch ac i'r Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig am weld gwerth yn y gwaith.

Cyfeiriodd aelod at ddyfodol toiledau cyhoeddus yn yr ardal. Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai mater i'r Uned Bwrdeistrefol oedd y toiledau. Mewn ymateb i gais gan aelod, nododd y byddai'n cysylltu efo'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i nodi bod y toiledau yn bwysig i Borthmadog.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed ffioedd parcio Traeth y Graig Ddu, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig nad oedd cyllideb traethau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor Ymgynghorol. Nododd y byddai'n anfon gwybodaeth gyllidebol traethau i'r aelodau.

Holodd aelod am ddiweddariad ar fwriad Clwb Hwylio Madog i gyflwyno cais ar gyfer cynyddu nifer pontŵns yn yr Harbwr. Mewn ymateb, nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden bod ddim digon o ofyn am y ddarpariaeth ar hyn o bryd a ni fyddai'r bwriad yn hyfyw. 'Roedd y Clwb Hwylio yn ystyried cynllun amgen gan roi estyniad 24 medr ar y ddarpariaeth bresennol er mwyn creu lle i 7 angorfa ac fe fyddai un am ddim ar gyfer cwch yr harbwr. Nododd y byddai'n rhaid derbyn hawl gan y Cyngor i symud angorfeydd er mwyn gwireddu'r cynllun.

Mewn ymateb, nododd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ei fod yn awyddus i dderbyn manylion y cynllun cyn gynted â phosib er mwyn i'r Cyngor bwyso a mesur y wybodaeth a thrafod opsiynau posib gyda'r Clwb Hwylio.

**PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.**

## 4. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 10 Hydref, 2018.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.25pm

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **10 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr** |
| **AWDUR** | **Uwch Swyddog Harbyrau** |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mawrth 2018 a mis Hydref 2018, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

1.3 Mae Pwyllgor Harbwr Porthmadog yn Bwyllgor Harbwr statudol, a sefydlwyd yn unol ag Adran 6(2) (a-j) Gorchymyn Diwygio Harbwr Porthmadog 1998. Yn ôl y gorchymyn, mae pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog. Ceir rhestr gynhwysfawr o grwpiau a sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yng Ngorchymyn yr Harbwr.

**2. Angorfeydd a Chofrestru Cychod ym Mhorthmadog**

2.1 Yn 2018/18 roedd ffigyrau angorfeydd yr Harbwr fel a ganlyn:-

2.2 Mae 130 o gychod wedi bod ar angorfeydd blynyddol yn 2018. Mae hyn yn cymharu â 133 yn 2017 a 129 yn 2016. Er y gostyngiad bychan yn nifer y cychod sydd yn yr harbwr, mae hi'n braf nodi fod y ffigwr hwn wedi aros yn gymharol sefydlog mewn cyfnod o hinsawdd economaidd ansicr.

2.3 Yn gyffredinol, wrth gymharu holl Harbyrau Cyngor Gwynedd, mae gostyngiad wedi bod yn nifer y cwsmeriaid yn y flwyddyn ddiwethaf ym mhob un o'r harbyrau.

2.4 Roedd 1066 o Gychod Pŵer wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2018 o gymharu â 955 wedi cofrestru yn 2017. Cofrestrwyd 38 o Gychod yn Harbwr Porthmadog o gymharu â 37 y llynedd.

2.5 Roedd 34 o Gychod Pŵer wedi cofrestru ym Morfa Bychan o gymharu â 29 y flwyddyn gynt, 2017.

2.6 Roedd 924 o Fadau Dŵr Personol wedi'u cofrestru yng Ngwynedd yn 2018. Mae hyn yn gynnydd o 186 o gychod o gymharu â 2017 pan gofrestrwyd 738.

2.7 Roedd 200 o Fadau Dŵr Personol wedi'u cofrestru ym Morfa Bychan o gymharu â 165 y flwyddyn flaenorol.

**3. Y Cod Diogelwch Morol**

3.1.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch ar gyfer pawb sy'n defnyddio

neu'n gweithio mewn amgylchedd porthladdoedd. Mae'n berthnasol i holl Awdurdodau Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu'n berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Porthmadog.

3.1.2 Rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr o Asiantaeth Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol.

3.1.3 Yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd derbyniodd y Gwasanaeth adroddiad ynghylch yr archwiliad gan yr archwilwyr allanol ac fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Ymgynghorol fis Mawrth diwethaf.

3.1.4 Fel yr adroddwyd yn flaenorol, roedd yr archwilwyr o'r farn fod y Gwasanaeth yn gyffredinol yn cydymffurfio â gofynion y cod, ond yn awgrymu mesurau i wella cydymffurfiaeth y Gwasanaeth yn benodol o ran y Deilydd Dyletswydd a'r Person Dynodedig. Ni chyflwynwyd unrhyw sylwadau ar Faterion Diogelwch yn Harbwr Porthmadog.

3.1.5 O ganlyniad i'r gwelliannau hyn, bydd Cabinet y Cyngor, sydd wedi'u hethol yn annibynnol, yn unigol ac ar y cyd, yn cael eu penodi'n 'Ddeilydd Dyletswydd' ar gyfer y Gwasanaeth a Chapten M. Forbes, Harbwrfeistr Conwy fydd y 'Person Dynodedig' gofynnol â'r cymwysterau addas.

3.1.6 Er bod y Cod Diogelwch Morol ar gyfer yr Harbyrau yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Gwasanaeth, atgoffir Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol o'u dyletswydd i gyflwyno sylwadau ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch a derbyn sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau er mwyn adolygu'r Cod Diogelwch i sicrhau ei fod yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr, priodoldeb lleol.

3.1.7 Roedd archwilwyr yr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau i fod i ailymweld â'r gwasanaeth fis Hydref eleni fel dilyniant i'r adolygiad a gynhaliwyd y llynedd, a rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch y Cod Diogelwch Morol yn ystod eu hymweliad. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, bu'n rhaid gohirio'r ymweliad tan fis Mawrth y flwyddyn nesaf i gyd-fynd â'r cyfarfod Pwyllgor, pan fydd yr archwilwyr yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor.

## 4. Materion Staffio

4.3.1 Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) i ben 30 Medi 2018. I sicrhau cymorth gyda gwaith yr harbwr, mae'r contract wedi cael ei ymestyn ar drefniant tri diwrnod yr wythnos, mis ar y tro.

4.3.2 Mae gan y Gwasanaeth Morwrol saith aelod staff llawn amser ac un sy'n gweithio'n rhan amser (gweinyddol). Mae naw aelod staff yn Hafan. Mae'r gwasanaeth wedi profi cyfnod

prysur yn ystod yr haf eleni ac wedi gweld cynnydd yn y gwaith sy'n ymwneud â cham-drin a thrais, gydag aelod o staff tymhorol Morfa Bychan yn cael ei ymosod yn gorfforol.

4.3.3 Yn ddibynnol ar gyfyngiadau ariannol a chyllidebol, mae'r gwasanaeth yn chwilio am bosibilrwydd cyflogi cymhorthydd harbwr llawn amser i weithio yn harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw. Bydd y swydd cymhorthydd harbwr ym Mhorthmadog fel arall yn dychwelyd i weithio'n llawn amser ar 1 Ebrill 2019.

**5. Materion Ariannol**

5.1 Mae crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter wedi'i amgáu.

5.2 Yn ystod y cyfnod roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:-

- Cynnal a Chadw Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff
- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau. Torri gwellt a diogelu coed
- Cwch y Dwyfor. Buddsoddi i gynnal a chadw'r cwch i gydymffurfio â gofynion y cod ymarfer. Mae'r cwch gwaith wedi'i leoli'n barhaol yn Harbwr Porthmadog i sicrhau bod pob cymhorthydd mordwyo yn ei safle priodol drwy gydol y flwyddyn.

5.3 **Ffioedd a Thaliadau 2018/19.** O safbwynt ffioedd a thaliadau arfaethedig Harbwr Porthmadog yn ogystal â ffioedd lansio Badau Dŵr Personol yn 2019/20, bwriad y gwasanaeth yw addasu'r ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth eto i dderbyn cadarnhad o'r cyfraddau sydd i'w defnyddio.

**6 Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd yr Harbwrfeistr ym Mhorthmadog yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a godwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018, gan gynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod perthnasol. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

ADDRODIADHARBWR PORTHMADOG

CYFRIF INCWM A GWARIANT 2018-19

| | Cyllideb | Gwariant/Incwm hyd at 31.08.2018 | Taflynnu costau hyd at 31.03.2019 | Gor/(tan)wariant |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | £45,510 | £21,385 | £21,418 | -£2,707 |
| Adeiladau | £22,080 | £208 | £10,000 | -£11,872 |
| Cludiant | £590 | £236 | £354 | -£0 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | £9,840 | £12,036 | £4,000 | £6,196 |
| **Cyfanswm Gwariant** | £78,020 | £33,865 | £35,772 | -£8,383 |
| **Incwm** | -£79,180 | -£60,842 | -£4,677 | £13,661 |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | -£1,160 | -£26,977 | £31,095 | £5,277 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog** |
| **DYDDIAD** | **10 Hydref 2018** |
| **TEITL** | **Adroddiad yr Harbwrfeistr** |
| **AWDUR** | **M.Humphreys. Harbwrfeistr Porthmadog** |

H1. **Materion Mordwyo**

H1.1. Pob blwyddyn, mae Tŷ’r Drindod, yr Awdurdod Goleudai Cyffredinol, yn cynnal archwiliad annibynnol ar bresenoldeb a swyddogaeth y cymhorthion mordwyo a gofnodwyd yn harbyrau Gwynedd a phob dwy flynedd bydd yr un Awdurdod yn cynnal archwiliad annibynnol o'r holl systemau, prosesau a chofnodion a gedwir am y cymhorthion mordwyo yn harbyrau Gwynedd gan gynnwys gwirio'r holl gofnodion cynnal a chadw.

H1.2 Ddydd Iau, 12 Ebrill 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i Harbwr Porthmadog i gynnal archwiliad o'r systemau, prosesau a'r cofnodion cynnal a chadw a gedwir gan y Gwasanaeth. Yn dilyn yr archwiliad gwelwyd bod popeth yn ei le'n iawn.

H1.3 Ddydd Mawrth, 14 Ebrill 2018, daeth arolygydd o Dŷ'r Drindod i Harbwr Porthmadog i gynnal archwiliad o bresenoldeb corfforol a swyddogaeth y cymhorthion mordwyo yn yr harbwr. Gwelwyd bod pob un o'r cymhorthion mewn trefn dda ac yn gweithio'n iawn.

H1.4 Ar hyn o bryd, mae Rhybudd i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Porthmadog.

H1.5 52° 53.681’ N 004° 09.471’ W Nid yw Cymhorthydd Mordwyo Starboard- Rhif 7 Fl G (3) 10s ar ei safle priodol.

H1.6 Mae'r Gwasanaeth yn edrych i brynu Marc Dŵr Diogel (Bŵi *Fairway*) newydd wrth i'r sianel agor i'r harbwr i'w osod yn lle'r bŵi sydd yna ar hyn o bryd, gan yr oedd rhaid ei adnewyddu'n sylweddol yn gynharach eleni. Ni fu'r bŵi yn ei safle priodol am gyfnod o amser, a hynny gyda chaniatâd Tŷ’r Drindod. Mae'r amcanbrisiau a gafwyd am un newydd yn amrywio o £4500 i £9500 yn ddibynnol ar fath a maint y bŵi.

H1.7 Mae sianel fordwyo Harbwr Porthmadog wedi newid ei chwrs yn sylweddol a bellach yn ffurfio cwrs sythach tua'r môr o gymharu â rhedeg gyfochrog â thraeth Harlech yn y gorffennol. Mae banciau tywod sy'n tyfu ym Morth-y-gest hefyd wedi bod yn destun pryder.

H1.8 I gydymffurfio â'r newid yng nghwrs y sianel fordwyo ac ar y cyd â Thŷ’r Drindod a'r swyddfa Hydrograffeg, bu'n rhaid symud y Marc Dŵr Diogel i safle 52° 52.970’ N 004° 11.200’ W pan aeth yn ôl i'r dŵr ar ôl cael ei adnewyddu. Mae'r Gwasanaeth yn archwilio'r sianel yn rheolaidd ar lanw isel i geisio sicrhau bod y cymhorthion mordwyo yn y lleoliad mwyaf priodol. Gall hyn fod yn waith heriol yn sgil y newidiadau cyson i'r sianel.

H1.9 Hoffai’r Gwasanaeth ddiolch i Fad Achub Cricieth am eu cymorth wrth ymdrin â suddiad y cwch Catamaran 'Jessica's Day' yn Harbwr Porthmadog yn ystod gyda'r nos ddydd

Llun 23 Gorffennaf 2018. Nid oedd neb ar fwrdd y cwch, ac fe'i symudwyd wedyn i wal yr harbwr.

H2 **Materion Gweithredol**

H2.1 Mae'r cwch, Dwyfor, wedi derbyn gwaith cynnal a chadw i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r cod cychod gwaith gofynnol. Roedd angen llawer o waith ar injan y cwch, ac roedd angen darnau newydd iddi ar gost o £6115.20. Roedd hefyd angen gwaith strwythurol mewnol ac roedd hynny'n costio £8496.00. Mae'r cwch yn eitem angenrheidiol o offer wrth gynorthwyo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog i gynnal a symud y cymhorthion Mordwyo yn ôl y gofyn, sy'n waith a fyddai fel arall yn cael ei gontractio i rywun arall.

H2.2 Roedd cyflwr y cwch 'Dilos' sydd wedi cael ei angori ar wal yr harbwr ym Mhorthmadog er cyfnod o amser yn prysur ddirywio ac roedd dŵr yn dechrau mynd iddo. Rhoddwyd gwybod i berchennog y cwch yn unol â hynny ac fe symudwyd y cwch o'r harbwr ym mis Ebrill, ac ar gost y perchennog.

H2.3 Croesawodd yr harbwr gwsmer newydd i'r harbwr ar ddechrau'r tymor, llong bysgota Daneg gynt o'r enw 'Beverly' oedd yn 60 troedfedd o hyd, ac 8 troedfedd o ddrafft. Mae'r cwch, sef y cwch mwyaf yn yr harbwr ar hyn o bryd, wedi cael ei angori ar wal yr harbwr ger Pont Britannia, ac mae wedi denu nifer o ymwelwyr i'r harbwr.

H3 **Cynnal a Chadw**

H3.1 Yn dilyn archwiliad yn gynharach yn y flwyddyn cynhaliwyd gwaith cynnal a chadw ar yr angorfeydd yn yr harbwr. Roedd angen gosod 22 cadwyn godi, 22 bwi angori Hippo, 32 cadwyn ddaear a 22 cadwyn frig newydd. Cyfanswm cost hyn yn cynnwys y gwaith plymio oedd £3120.

H3.2 Rydym bellach wedi gosod bocsys pren i ddal blodau o amgylch rhai o'r coed yn yr harbwr i ddiogelu pobl sy'n cerdded rhag gwreiddiau'r coed a'r slabiau palmant sydd wedi codi yn eu sgil. Yn dilyn pryderon cychwynnol, mae'r bocsys blodau wedi derbyn sylwadau cadarnhaol yn dilyn gosod bylchwyr pren o amgylch bonion y coed, i gadw'r pridd oddi wrth y bonyn. Bydd staff yr harbwr yn parhau i gynnal y gwellt o amgylch ardal yr harbwr a chlirio ysbwriel o'r ardal pob cyfle posib.

H3.3 Bydd yr Harbwrfeistr yn cyflwyno'r rhaglen waith cynnal sydd i'w chwblhau yn harbwr Porthmadog yn ystod y cyfnod mis Hydref 2018 - mis Chwefror 2019. Gofynnir am adborth gan aelodau'r Pwyllgor ynghylch unrhyw waith arall fydd angen ei ystyried a'i gynnwys yn y rhaglen waith.

H3.4 **Diogelwch Parcio:** Rheiliau gyferbyn â'r Amgueddfa Forwrol. Bwriad y gwasanaeth yw trwsio a gwella'r rheiliau sydd rhwng yr amgueddfa forwrol a chefn y Ganolfan, gan gynnwys gosod giât, i ganiatáu mynediad dan reolaeth i gerbydau i'r ardal gerddwyr sydd gyferbyn â'r amgueddfa. Ni chaniateir cerbydau i barcio ar yr ardal, ond mae'r Harbwrfeistr wedi gweld nifer o geir yn tresmasu ar yr ardal, yn enwedig ar ddyddiau prysur yn ystod yr haf.

H4. **Materion Eraill**

H4.1 **Arwyddion diogelwch** Ar y cyd â'r Bad Achub, cynhaliwyd adolygiad manwl o'r holl arwyddion diogelwch yn ardal traeth Morfa Bychan. Mewn ymateb i'r archwiliad ac mewn ymgynghoriad â'r Bad Achub, bwriad y Gwasanaeth o hyd yw codi arwyddion newydd ar sawl safle o amgylch ardal y traeth. Mae arwyddion diogelwch wedi cael eu gosod ar y cyd â'r RNLI yn Aberdyfi, Tywyn a Bermo ac mae'r gwaith arwyddion ym Morfa Bychan ar ei hôl hi a heb ei gwblhau. Gan y rhagwelwyd y byddai angen tynnu'r arwyddion o'r traeth yn ystod misoedd y gaeaf i leihau difrod posib gan dywydd garw, disgwylir bellach i'r arwyddion fod yn eu lle ar gyfer dechrau'r tymor prysur y flwyddyn nesaf.

H4.2 **Cynllun Clwb Hwylio Madog.** Mae cynrychiolwyr Clwb Hwylio Madog eisoes wedi adrodd ar gynlluniau i gynyddu nifer y pontŵns yn yr harbwr. Gobeithir y bydd diweddariad ar y bwriad ar gael gan y cynrychiolydd yn y cyfarfod.

H4.3 **Borth-y-gest.** Mae ardal glannau Borth-y-gest wedi gweld gwaith sylweddol yn sgil Cynllun Lliniaru Llifogydd Borth-y-gest yn y misoedd diwethaf. Mae'r maes parcio yn yr ardal hon hefyd wedi cael ei ddefnyddio fel lleoliad gwaith y cwmni *Fugro* o ran y gwaith ymchwiliol a gynhaliwyd ar aber afon Dwyryd. O ganlyniad, mae'r gwaith i wella ymddangosiad y storfa gychod ar y safle hwnnw wedi oedi. Gobeithir bellach y gellir cwblhau'r gwaith hwn yn ystod cyfnod y gaeaf.

H4.4 **Meinciau Coffa Borth y Gest.** Mae'r gwasanaeth Morwrol yn y broses o adolygu, tynnu ac adnewyddu yn ôl yr angen y meinciau coffa sydd yn ardal Borth-y-gest. Mae nifer ohonynt mewn cyflwr gwael.

H4.5 **Clwb Hwylio Porthmadog**. Derbyniodd swyddfa'r harbwr gais gan Glwb Hwylio Porthmadog i gynrychiolydd o'r sefydliad hwnnw gael ei gyfethol ar Bwyllgor Ymgynghorol yr Harbwr. Cyflwynir y mater i sylw'r Pwyllgor i gael eu barn a'u sylwadau.

H5. **Digwyddiadau**

Cynhaliwyd y digwyddiadau a ganlyn yn Harbwr Porthmadog yn 2018:-

- Digwyddiad arddangosfa Beiciau Modur
- Ras Cychod Celtaidd rhwng Pwllheli a Phorthmadog
- Ymwelodd nifer o gwmnïau ffilm â'r ardal sy'n amgylchynu'r Harbwr a thraeth y Graig Ddu.
- Moveable Feast a Caru Port

# *Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit*

## *Cyfanswm wedi Cofrestru Badau Dwr Personol - Total number of Personal Watercraft Registrations*

| Blwyddyn Year | Harbwr Aberdyfi Harbour | Harbwr Abermaw Harbour | Harbwr Porthmadog Harbour | Harbwr Pwllheli/ Hafan | Morfa Bychan | Traethau Gwynedd Beaches | Swyddfa Office | Cyfanswm Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 16 Aberdyfi<br>10 Tywyn | 55 Abermaw<br>6 Caerddaniel | 36 | 2 Harbwr<br>23 Hafan | 129 | 85 Abersoch<br>4 Machroes<br>6 Morfa Nefyn<br>8 Nefyn<br>2 Trefor<br>4 Aberdaron | 308 | 694 |
| 2014 | 22 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 65 Abermaw<br>5 Caerddaniel | 20 | 36 Total Boat Care<br>1 Harbwr<br>47 Hafan | 143 | 88 Abersoch<br>5 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 250 | 693 |
| 2015 | 23 Aberdyfi<br>1 Tywyn | 64 Abermaw a Caerddaniel | 30 | 42 Total Boat Care<br>43 Hafan | 157 | 76 Abersoch<br>1 Machroes<br>9 Morfa Nefyn<br>6 Nefyn<br>1 Aberdaron | 243 | 696 |
| 2016 | 27 Aberdyfi<br>4 Tywyn | 69 Abermaw | 35 | 49 Total Boat Care<br>56 Hafan | 183 | 101 Abersoch<br>20 Machroes<br>4 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>2 Aberdaron | 174 | 734 |
| 2017 | 28 Aberdyfi<br>6 Tywyn | 68 Abermaw | 45 | 55 Total Boat Care<br>65 Hafan | 165 | 122 Abersoch<br>10 Machroes<br>12 Morfa Nefyn<br>10 Nefyn<br>1 Aberdaron | 151 | 738 |
| 2018 | 50 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 74 Abermaw | 52 | 72 Total Boat Care<br>105 Hafan | 200 | 191 Abersoch<br>8 Machroes<br>3 Morfa Nefyn<br>5 Nefyn<br>1 Aberdaron | 160 | 924 |


# Uned Morwrol a Pharciau Gwledig / Maritime and Country Parks Unit
## Cyfanswm wedi Cofrestru Cychod Pŵer - Total number of Powerboat Registrations


| Blwyddyn<br>Year | Harbwr<br>Aberdyfi<br>Harbour | Harbwr<br>Abermaw<br>Harbour | Harbwr<br>Porthmadog<br>Harbour | Harbwr<br>Pwllheli<br>Harbour | Morfa<br>Bychan | Traethau<br>Gwynedd<br>Beaches | Swyddfa<br>Office | Cyfanswm<br>Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2013 | 27 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 54 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 22 | 16 Harbwr<br>60 Hafan | 22 | 92 Abersoch<br>14 Machroes<br>22 Trefor<br>17 Nefyn<br>24 Morfa Nefyn<br>38 Aberdaron | 553 | 981 |
| 2014 | 54 Aberdyfi<br>8 Tywyn | 64 Abermaw<br>11 Caerddaniel | 24 | 118 Total<br>Boat Care<br>8 Harbwr<br>85 Hafan | 19 | 115 Abersoch<br>3 Machroes<br>30 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>21 Trefor<br>19 Aberdaron | 408 | 1001 |
| 2015 | 52 Aberdyfi<br>3 Tywyn | 71 Abermaw a<br>Caerddaniel | 30 | 99 Total<br>Boat Care<br>5 Harbwr<br>104 Hafan | 14 | 92 Abersoch<br>4 Machroes<br>23 Morfa Nefyn<br>13 Nefyn<br>16 Trefor<br>12 Aberdarom | 449 | 987 |
| 2016 | 58 Aberdyfi<br>7 Tywyn | 81 Abermaw | 37 | 115 Total<br>Boat Care<br>4 Harbwr<br>119 Hafan | 31 | 101 Abersoch<br>71 Machroes<br>27 Morfa Nefyn<br>14 Nefyn<br>10 Aberdaron | 336 | 1011 |
| 2017 | 53 Aberdyfi<br>9 Tywyn | 66 Abermaw | 37 | 103 Total<br>Boat Care<br>3 Harbwr<br>117 Hafan | 29 | 125 Abersoch<br>40 Machroes<br>48 Morfa Nefyn<br>19 Nefyn<br>11 Aberdaron<br>6 Trefor | 289 | 955 |
| 2018 | 53 Aberdyfi<br>14 Tywyn | 75 Abermaw | 38 | 112 Total<br>Boat Care<br>182 Hafan | 34 | 161 Abersoch<br>34 Machroes<br>53 Morfa Nefyn<br>16 Nefyn<br>5 Aberdaron | 289 | 1066 |


# HARBWR PORTHMADOG HARBOUR


## Cymhariaeth o Ystadegau Cychod
Comparison of Boat Statistics


| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer o Gychod /** Number of Boats | 162 | 157 | 140 | 129 | 135 | 131 |
| **Cyfanswm Hydoedd /** Total Overall Length | 1311.37 | 1260.68 | 1150.60 | 1055.12 | 1098.58 | 1055.13 |
| **Cyfartaledd Hyd /** Average Length | 8.09 | 8.03 | 8.22 | 8.18 | 8.14 | 8.05 |
| **Cyfanswm Dyfnder /** Total Draught | 148.32 | 141.74 | 137.69 | 127.50 | 133.18 | 131.01 |
| **Cyfartaledd Dyfnder** / Average Draught | 0.92 | 0.90 | 0.98 | 0.99 | 0.99 | 1.00 |



# *Uned  Morwrol a Pharciau Gwledig*

## Ystadegau Cychod Pŵer v's Cychod Hwylio a Rhestr Aros - Powerboats v's Sailing Boats and Waiting List

| *Harbwr/Harbour Marina* | *Cyfanswm Nifer Angorfeydd Total number available moorings* | *Cyfanswm Cychod ar Angorfeydd Total number of boats on mooring* | *Nifer Cychod P ŵer Total number Powerboats* | *Nifer Cychod Hwylio Total number sailing boats* | *Canran (%) Pŵer V's hwylio Percentage Power v's Sail* |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Aberdyfi 13 | 120 | 80 | 54 | 26 | 67.5% Pwer<br>32.5% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 14 | 120 | 75 | 53 | 22 | 70.7% Pwer<br>29.3% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 15 | 120 | 77 | 53 | 24 | 68.8% Pwer<br>31.2% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 16 | 120 | 79 | 55 | 24 | 69.6% Pwer<br>30.4% Hwylio |
| Harbwr Aberdyfi 17 | 120 | 78 | 56 | 22 | 71.8% Pwer<br>28.2% Hwylio |
| **Harbwr Aberdyfi 18** | **120** | **74** | **55** | **19** | **74.3 % Pwer**<br>**25.7% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Abermaw 13 | 140 | 92 | 62 | 30 | 67.4% Pwer<br>32.6% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 14 | 140 | 82 | 54 | 28 | 65.9% Pwer<br>34.1% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 15 | 140 | 93 | 60 | 33 | 64.5% Pwer<br>35.5% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 16 | 140 | 88 | 59 | 29 | 67.0% Pwer<br>33.0% Hwylio |
| Harbwr Abermaw 17 | 140 | 86 | 55 | 31 | 64.0% Pwer<br>36.0% Hwylio |
| **Harbwr Abermaw 18** | **140** | **69** | **45** | **24** | **65.2% Pwer**<br>**34.8% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Porthmadog 13 | 238 | 162 | 59 | 103 | 36.4% Pwer<br>63.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 14 | 238 | 157 | 54 | 103 | 34.4% Pwer<br>65.6% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 15 | 238 | 140 | 45 | 95 | 32.1% Pwer<br>67.9% Hwylio |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbwr Porthmadog 16 | 238 | 129 | 41 | 88 | 31.8% Pwer<br>68.2% Hwylio |
| Harbwr Porthmadog 17 | 238 | 135 | 42 | 93 | 31.1% Pwer<br>68.9% Hwylio |
| **Harbwr Porthmadog 18** | **238** | **131** | **40** | **91** | **30.5% Pwer<br>69.5% Hwylio** |
| | | | | | |
| Harbwr Pwllheli 13 | 114 | 87 | 39 | 48 | 44.8% Pwer<br>55.2% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 14 | 114 | 91 | 36 | 55 | 39.6% Pwer<br>60.4% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 15 | 114 | 87 | 46 | 41 | 52.9% Pwer<br>47.1% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 16 | 114 | 58 | 18 | 40 | 31.0% Pwer<br>69.0% Hwylio |
| Harbwr Pwllheli 17 | 114 | 60 | 19 | 41 | 31.7% Pwer<br>68.3% Hwylio |
| **Harbwr Pwllheli 18** | **114** | **55** | **29** | **26** | **52.7% Pwer<br>47.3% Hwylio** |
| | | | | | |
| Hafan Pwllheli 13 | 410 | 302 | 153 | 149 | 50.7% Pwer<br>49.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 14 | 409 | 293 | 139 | 154 | 47.4% Pwer<br>52.6% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 15 | 409 | 292 | 138 | 154 | 47.3% Pwer<br>52.7% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 16 | 409 | 287 | 137 | 150 | 47.7% Pwer<br>52.3% Hwylio |
| Hafan Pwllheli 17 | 409 | 306 | 144 | 162 | 47.1% Pwer<br>52.9% Hwylio |
| **Hafan Pwllheli 18** | **409** | **292** | **150** | **142** | **51.4% Pwer<br>48.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Doc Fictoria 13 | 100 | 100 | 37 | 63 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 14 | 100 | 100 | 36 | 64 | 36.0% Pwer<br>64.0% Hwylio |
| Doc Fictoria 15 | 100 | 98 | 34 | 64 | 34.7% Pwer<br>65.3% Hwylio |
| Doc Fictoria 16 | 100 | 92 | 34 | 58 | 37.0% Pwer<br>63.0% Hwylio |
| | | | | | |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Doc Fictoria 17 | 100 | 92 | 28 | 64 | 30.4% Pwer<br>69.6% Hwylio |
| **Doc Fictoria 18** | **100** | **90** | **49** | **41** | **54.4% Pwer<br>45.6% Hwylio** |
| | | | | | |
| Cyfanswm 13 | 1122 | 823 | 416 | 407 | 50.5% Pwer<br>49.5% Hwylio |
| Cyfanswm 14 | 1121 | 798 | 372 | 426 | 46.6% Pwer<br>53.4% Hwylio |
| Cyfanswm 15 | 1121 | 787 | 376 | 411 | 47.8% Pwer<br>52.2% Hwylio |
| Cyfanswm 16 | 1121 | 733 | 344 | 389 | 46.9% Pwer<br>53.1% Hwylio |
| Cyfanswm 17 | 1121 | 757 | 344 | 413 | 45.4% Pwer<br>54.6% Hwylio |
| **Cyfanswm 18** | **1121** | **709** | **367** | **342** | **51.8% Pwer<br>48.2% Hwylio** |

# CYMHARIAETH O YSTADEGAU CYCHOD YM MHOB HARBWR 2018
# COMPARISON OF BOAT STATISTICS AT EACH HARBOUR 2018


| Harbwr<br>Harbour | Nifer o Gychod<br>Number of Boats | Cyfanswm Hydoedd<br>Total Overall Length | Cyfartaledd Hyd<br>Average Length | Cyfanswm Dyfnder<br>Total Draught | Cyfartaledd Dyfnder<br>Average Draught |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abermaw** | **69** | **493.36** | **7.15** | **61.21** | **0.89** |
| **Aberdyfi** | **74** | **480.92** | **6.50** | **50.91** | **0.69** |
| **Porthmadog** | **131** | **1055.13** | **8.05** | **131.01** | **1.00** |
| **Pwllheli** | **55** | **416** | **7.56** | **49.11** | **0.89** |
| | | | | | |
| **Cyfansymiau holl harbrau<br>Totals of all harbours** | **329** | **2445.41** | **29.26** | **292.24** | **3.47** |
| **Cyfartaleddau holl harbrau<br>Averages of all harbours** | **82.25** | **611.35** | **7.32** | **73.06** | **0.87** |

# Darlun o ystadegau cychod ym mhob harbwr.
# Analysis of boat statistics at each harbour.


### Nifer o Gychod / Number of Boats





### Cyfanswm Hyd / Total LOA





### Cyfartaledd Hyd / Average LOA




### Cyfanswm Dyfnder / Total Draught




### Cyfartaledd Dyfnder / Average Draught



## *Uned Morwrol / Maritime Unit*

***Ystadegau angorfeydd – Mooring statistics***

| ***Harbwr<br>Harbour*** | ***Nifer o Angorfeydd<br>Available no of moorings*** | ***Preswylydd<br>Occupancy*** | ***Preswyl yng Ngwynedd<br>Residing in Gwynedd*** | ***Eraill***<br>*Others* |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| *Aberdyfi 2013* | *120* | *80 (66.7%)* | *40 (50.0%)* | *40 (50.0%)* |
| *Aberdyfi 2014* | *120* | *75 (62.5%)* | *35 (46.7%)* | *40 (53.3%)* |
| *Aberdyfi 2015* | *120* | *77 (64.2%)* | *35 (45.5%)* | *42 (54.5%)* |
| *Aberdyfi 2016* | *120* | *79 (65.8%)* | *36 (45.6%)* | *43 (54.4%)* |
| *Aberdyfi 2017* | *120* | *78 (65.0%)* | *36 (46.2%)* | *42 (53.8%)* |
| ***Aberdyfi 2018*** | ***120*** | ***74 (61.7%)*** | ***37 (50.0%)*** | ***37 (50.0%)*** |
| | | | | |
| *Abermaw 2013* | *140* | *92 (65.7%)* | *55 (59.8%)* | *37 (40.2%)* |
| *Abermaw 2014* | *140* | *82 (58.6%)* | *54 (65.9%)* | *28 (34.1%)* |
| *Abermaw 2015* | *140* | *93 (66.4%)* | *63 (67.7%)* | *30 (32.3%)* |
| *Abermaw 2016* | *140* | *88 (62.9%)* | *60 (68.2%)* | *28 (31.8%)* |
| *Abermaw 2017* | *140* | *86 (61.4%)* | *59 (68.6%)* | *27 (31.4%)* |
| ***Abermaw 2018*** | ***140*** | ***69 (49.3%)*** | ***44 (63.8%)*** | ***25 (36.2%)*** |
| | | | | |
| *Porthmadog 2013* | *238* | *162 (68.1%)* | *45 (27.8%)* | *117 (72.2%)* |
| *Porthmadog 2014* | *238* | *157 (66.0%)* | *44 (28.0%)* | *113 (72.0%)* |
| *Porthmadog 2015* | *238* | *140 (58.8%)* | *44 (31.4%)* | *96 (68.6%)* |
| *Porthmadog 2016* | *238* | *129 (54.2%)* | *47 (36.4%)* | *82 (63.6%)* |
| *Porthmadog 2017* | *238* | *135 (56.7%)* | *54 (40.0%)* | *81 (60.0%)* |
| ***Porthmadog 2018*** | ***238*** | ***131 (55.0%)*** | ***54 (41.2%)*** | ***77 (58.8%)*** |
| | | | | |
| *Pwllheli 2013* | *114* | *84 (73.7%)* | *59 (70.2%)* | *25 (29.8%)* |
| *Pwllheli 2014* | *114* | *91 (79.8%)* | *47 (51.6%)* | *44 (48.4%)* |
| *Pwllheli 2015* | *114* | *87 (76.3%)* | *57 (65.5%)* | *30 (34.5%)* |
| *Pwllheli 2016* | *114* | *58 (50.9%)* | *27 (46.6%)* | *31 (53.4%)* |
| *Pwllheli 2017* | *81* | *60 (74.1%)* | *28 (46.7%)* | *32 (53.3%)* |
| ***Pwllheli 2018*** | ***81*** | ***55 (67.9%)*** | ***27 (49.1%)*** | ***28 (50.9%)*** |
| | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Hafan 2013* | *410* | *302 (73.7%)* | *68 (22.5%)* | *234 (77.5%)* |
| *Hafan 2014* | *409* | *293 (71.6%)* | *51 (17.4%)* | *242 (82.6%)* |
| *Hafan 2015* | *409* | *292 (71.4%)* | *56 (19.2%)* | *236 (80.8%)* |
| *Hafan 2016* | *409* | *287 (70.1%)* | *55 (19.2%)* | *232 (80.8%)* |
| *Hafan 2017* | *409* | *306 (74.8%)* | *57 (18.6%)* | *249 (81.4%)* |
| ***Hafan 2018*** | ***409*** | ***292 (71.4%)*** | ***56 (19.2%)*** | ***236 (80.8%)*** |
| | | | | |
| *Doc Fictoria 2013* | *100* | *100 (100.0%)* | *27 (27.0%)* | *73 (73.0%)* |
| *Dco Fictoria 2014* | *100* | *100 (100.0%)* | *25 (25.0%)* | *75 (75.0%)* |
| *Doc Fictoria 2015* | *100* | *100 (100.0%)* | *21 (21.0%)* | *79 (79.0%)* |
| *Doc Fictoria 2016* | *100* | *92 (92.0%)* | *19 (20.7%)* | *73 (79.3%)* |
| *Doc Fictoria 2017* | *100* | *92 (92.0%)* | *16 (17.4%)* | *76 (82.6%)* |
| ***Doc Fictoria 2018*** | ***100*** | ***90 (90.0%)*** | ***21 (23.3%)*** | ***69 (76.7%)*** |
| | | | | |


# Harbwr Porthmadog Harbour

**Mae'r sianel yn newid cwrs yn rheolaidd. Cynghorir bod morwyr yn cysylltu gyda'r Harbwrfeistr am y wybodaeth diweddaraf.**

**The channel changes course regularly. Please contact the Harbourmaster for the latest information.**

**01766 512927 / 07879 433147**
**VHF: 12 / 16**

**Nid yw cael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo**
**Not to be used for navigation**




Cynghorir morwyr i beidio â mordwyo dros y draethell oni bai
Oddi fewn 2 awr pob ochr pen llanw (dibynnol ar gyflwr y môr )
I gychod gyda draft fwy na 1.5m cynghorir morwyr i beidio mordwyo
Dros y draethell oddi fewn 1,5 awr bob ochor pen llanw.

The channel should not be used at any time, other than 2hrs Either side Of High water (Dependant on sea state) Vessels with A draft greater Than 1.5 should only use the Channel 1.5hrs Either side of high water.

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL
Uned Morwrol a Pharciau Gwledig
Maritime and Country Parks Unit

Economi a Chymuned
**Economy and Community**
Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig
Maritime and Country Parks Service
Rheolwr/Manager – Barry Davies

# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

## Uned Morwrol a Pharciau Gwledig
## Maritime and Country Parks Unit
## Rhybydd Morwriaeth Lleol - Local Notice to Mariners
## 12/09/2018

| Harbwr Porthmadog Harbour<br>Lleoliad Cyfredol Cymhorthyddion Mordwyo<br>Present Positions of Aids to Navigation | | | |
|---|---|---|---|
| Fairway | L FL W 10s | 52° 52.970 N | 004° 11.200 W |
| 1 | Q FL G | **Tor parhad dros dro** | **Temp discontinuance** |
| 2 | Q FL R | 52° 52.991 N | 004° 10.607 W |
| 3 | FL G 3s | **Tor parhad dros dro** | **Temp discontinuance** |
| 4 | FL R(2)5s | 52° 53.158 N | 004° 10.289 W |
| 5 | FL G(2)5s | **Tor parhad dros dro** | **Temp discontinuance** |
| 6 | FL R (3)10s | 52° 53.266 N | 004° 10.047 W |
| 7 | FL G (3)10s | | |
| 9 | FL G (4)15s | 52° 53.957 N | 004° 09.095 W |
| 11 | FL G (5) 20s | **Tor parhad dros dro** | **Temp discontinuance** |
| 8 | FL R (4)15s | 52° 53.506 N | 004° 09.786 W |
| 10 | FL R 2.5s | 52° 54.587 N | 004° 09.005 W |
| 13 | FL G 2s | 52° 54.481 N | 004° 08.594 W |
| 12 | FL R 4s | 52° 54.562 N | 004° 08.534 W |
| 15 | FL G (2) 5s | 52° 54.764 N | 004° 08.151 W |
| 14 | FL R (2) 6s | 52° 54.863 N | 004° 07.942 W |
| 17 | FL G 6s | 52° 55.015 N | 004° 07.866 W |

***01766 512927 – 07879433147***
***Malcolm Humphreys@gwynedd.llyw.cymru***

12/9/18


Harbwrfeister
Harbour Master
01766 512927
M.Y.C
33 moorings
on pontoons
01766 512976
Stryd Fawr
South Snowdon Wharf
Robert Owen
Marine
01766 513435
Gwynedd
Marine
Madog boat
sales
01766 514205
Porthmadog
Sailing Club
Cei Balast
Lleoliadau Angori Harbwr Porthmadog
Porthmadog Harbour Mooring Locations
Lleoedd Croesi
Crossing Places
Storio Cychod
Boat Storage
Angorfeydd Cyngor Gwynedd
Gwynedd Council Moorings
Clwb Hwylio Porthmadog
Porthmadog Sailing Club
Madog Boat Sales
Madog Boat Sales
Angorfeydd Preif
Private Moorings